University of South Wales
Prifysgol De Cymru

# Y Ganolfan Gynadledda

Campws Trefforest

www.uswconferenceservices.co.uk

# MAE CROESO CYNNES YN DISGWYL AMDANOCH CHI

**Mae'r Tîm Cynadledda wedi llunio taflen wybodaeth i'ch helpu i gynllunio'ch ymweliad.**







## SUT ALLA I GYRRAEDD Y CAMPWS?

**Mewn car:Gellir dod o hyd i gyfarwyddiadau ar: www.southwales.ac.uk/cymraeg/amdanom/lleoliad/croeso-i-campws-trefforest/**
Gwasanaethir Cymru gan yr M4 y gellir ei chyrraedd yn hawdd o ogledd a de Lloegr a'r Alban.

- Os ydych yn teithio o'r dwyrain neu'r gorllewin ar yr M4, gadewch y draffordd wrth gyffordd 32
- Dilynwch yr A470 i gyfeiriad Merthyr Tudful
- Cymerwch yr allanfa A473 i gyfeiriad Llantrisant a Phrifysgol De Cymru
- Ar gyfer y prif gampws, cymerwch yr allanfa gyntaf a dilynwch y ffordd nes cyrraedd y Brifysgol
- Cod Post: CF37 1DL

**Ar y trên:** O Gaerdydd gallwch gymryd trên Cledra'r Cymoedd i Orsaf Trefforest, sydd ger y Brifysgol. Mae trenau'n rhedeg tua bob 15 munud ac fel arfer yn gadael o blatfform 6, ac yn teithio i naill ai Treherbert, Merthyr Tudful neu Aberdâr. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael y trên wrth orsaf Trefforest ac nid gorsaf Ystâd Ddiwydiannol Trefforest. Lleolir y Brifysgol ar bwys yr orsaf.

**Llwybr y trên:** Canol Caerdydd > Caerdydd Heol y Frenhines > Cathays > Llandaf > Radur > Ffynnon Taf > Ystâd Ddiwydiannol Trefforest > Trefforest

**Mewn awyren:** Mae'r maes awyr 12 milltir y tu allan i Ganol Dinas Caerdydd, ac 20 milltir o Brifysgol De Cymru. Gallwch gael tacsi yn syth o'r maes awyr i'r Brifysgol a fydd yn costio tua £35. Mae tacsis Maes Awyr Caerdydd ar gael i'w llogi 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.


## BLE ALLA I BARCIO?

Mae parcio ar gael yn rhad ac am ddim i bawb sy'n mynychu digwyddiad yn y Ganolfan Gynadledda. Mae parcio ar gael tu allan i'r adeilad, yn y cilfan ac wrth ochr yr adeilad. Mae llefydd ar gael ar sail cyntaf i'r felin. Fodd bynnag, mae maes parcio arall sydd 5 munud i ffwrdd ar droed a byddai'r tîm yn hapus i roi cyfarwyddiadau i chi.

Mae rhwystr cyn i chi gyrraedd y Ganolfan Gynadledda, rhwng Undeb y Myfyrwyr a'r Ganolfan Chwaraeon. Gyrrwch i fyny at y rhwystr, gwasgwch y botwm 'i' a rhowch wybod eich bod yn mynychu digwyddiad yn y Ganolfan Gynadledda, a bydd y rhwystr yn cael ei godi. Bydd y rhwystr yn codi'n awtomatig pan ddaw ato wrth i chi adael.

**MAE MAP Y CAMPWS WEDI'I GYNNWYS AR Y DUDALEN NESAF.**

**Canolfan Gynadledda, Prifysgol De Cymru, Campws Trefforest, Pontypridd, CF37 1DL**


MAP CAMPWS
Prif Mynedfa
Forest Grove
A473
Central Avenue
Llantwit Road
Overflow Parking
Brook Street
Park Street
Mynedfa
(Cerddwyr yn unig)
(Llwybr wedi'i awgrymu i cerdded o'r orsaf)
Pwynt Gwybodaeth
Parcio
Arosfa Bws
Rac Beic
Mannau Ailgylchu
Siop goffi
Lleoedd i Fwyta
TREFFOREST
1. Porthdy a Phrif Dderbynfa
2. Porthdy Diogelwch
3. Undeb y Myfyrwyr a'r Siop
4. Canolfan Chwaraeon
5. Parcio Cynrychiolwyr
6. Canolfan Gynadledda
7. Cwrt Bwyd Stilts
8. Llety

## A OES PEIRIANT ARIAN PAROD AR GAEL?

Gellir dod o hyd i beiriant arian parod yn Undeb y Myfyrwyr. Lleolir tu allan i'r siop ar y llawr isaf ac mae un arall o fewn yr adeilad, ar y llawr gwaelod.

## BLE ALLA I GAEL RHYWBETH I FWYTA/YFED?

Cwrt Bwyd Stilts yw'r man bwyta mwyaf ar y campws. Yn ogystal â lle bwyta mae yna soffas cyfforddus a byrddau isel lle gallwch ymlacio gyda choffi (mae ciosg coffi Starbucks ar gael). Ceir dewis o frecwast a chinio bob dydd, gan gynnwys prydau rhad a dewisiadau llysieuol, a gallwch fanteisio ar gynigion arbennig. Gwiriwch yr amseroedd agor gyda'r dderbynfa.

## BLE GALLAF GAEL MYNEDIAD AT FY E-BYST?

Mae gan y Ganolfan Gynadledda gyswllt gwe ddiwifr, felly byddwch chi'n gallu cyrchu'r rhyngrwyd gan ddefnyddio dyfais glyfar neu liniadur. Mae gwybodaeth mewngofnodi ar gael o'r dderbynfa.

## OES GENNYCH GYFLEUSTERAU CHWARAEON?

Mae gennym ni Ganolfan Chwaraeon, ParthFfit, ar y safle; cliciwch ar y ddolen hon am fanylion pellach: **https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/chwaraeon/cyfleusterau-chwaraeon-hamdden/cyfleusterau-fitzone/**

## SUT Y GALLAF DDWEUD WRTHYCH AM OFYNION ARBENNIG?

Rhowch wybod i ni am unrhyw ofynion arbennig, gan gynnwys gofynion dietegol a symudedd cyn i chi gyrraedd (ceir manylion cyswllt isod).


## GWYBODAETH IECHYD A DIOGELWCH

Bydd y trefnydd yn darparu gwybodaeth cadw tŷ wrth i chi gyrraedd a bydd y wybodaeth yn rhan o'ch pecyn cynrychiolwyr o fewn yr ystafell. Mae swyddog cymorth cyntaf a warden tân wedi'u lleoli yn y Ganolfan Gynadledda, ac mae canolfan iechyd ar y campws hefyd. Os byddwch yn teimlo'n sâl yn ystod eich ymweliad rhowch wybod i aelod o'r tîm.

*Byddwn yn croesawu unrhyw adborth sydd gennych, fel bod cyfle i ni wella eich profiad y tro nesaf.*

**GOBEITHIWN Y CEWCH DAITH AC ARHOSIAD PLESERUS AR Y SAFLE.**

# CYNLLUN LLAWR Y GANOLFAN GYNADLEDDA




Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â ni:

**01443 482 002 | events@southwales.ac.uk | https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/Busnes/Cynhadledda-a-Chyfleusterau/**

@USWConferences